

Today's lesson

John Paul Evans

Mae'r wers heddiw yn gyfres o gyfosodiadau perfformiadol, yn canolbwyntio ar 7 testun Beiblaidd sydd wedi cael eu dyfynnu i gondemnio cyfunrywioldeb.

Mae'r delweddau sy'n cyfeirio at ddarnau penodol o'r Beibl yn cael eu cydbwysu ag ymyriadau lle mae fy ngŵr Peter a minnau'n perfformio syniadau yn ymwneud â bod yn hoyw.

Mae diwinyddion hoyw wedi ceisio ail-ddehongli testunau Beiblaidd sy'n condemnio perthynas rhwng partneriaid o'r un rhyw er mwyn ceisio ystyr newydd. Mae'r ymgais i ddadansoddi confensiwn hanesyddol yn berthnasol, ond mae'n dal yn wir bod y geiriau hyn wedi cael eu defnyddio i gondemnio, i blismona ac i reoli sector o'r boblogaeth fel pobl sy'n 'wahanol' i'r arferol.

Mewn cymdeithas seciwlar, dywedir yn aml mai crefydd yw'r rheswm dros anoddefgarwch. Ond mae'r hanesydd a'r athronydd o Ffrainc, Michel Foucault, yn awgrymu bod yn rhaid inni archwilio unrhyw gonfensiwn hanesyddol "i ddarganfod pwy sy'n gwneud y siarad, o ba safle a safbwynt y maent yn siarad, pa sefydliadau sy'n symbylu pobl i siarad am y confensiwn a pha rai sy'n storio ac yn lledaenu'r pethau a ddywedir".¹

Yn y cyd-destun hwn, efallai y byddem yn diffinio crefydd fel un o'r sefydliadau. Ond os byddwn wedyn yn gofyn pa bwrpas y mae crefydd yn ei gyflawni, ac er budd pwy (ar wahân i dduw) y mae'n hyrwyddo, yna mae'r "ffaith ymresymiadol"² yn cynnal goruchafiaeth batriarchaidd.

Mae Peter yn dod o le a chyfnod lle byddai byw bywyd cyfunrywiol fel dyn ifanc wedi bod 'yn erbyn y gyfraith'. Dylanwadwyd ar y dad-droseddoli rhannol ar gyfunrywioldeb ym 1967 ym Mhrydain gan y Gymdeithas Diwygio Cyfraith Cyfunrywioldeb a fyddai wedyn yn dod yn Ymgyrch dros Gydraddoldeb Cyfunrywiol. Fel plentyn bach, doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r newid yn

y gyfraith, ond roeddwn i'n dal i gael fy magu mewn amgylchedd lle'r oedd cyfunrywioldeb yn cael ei ystyried fel 'y cariad na feiddiech chi siarad amdano'.³

Er y dadleuir bod Károly Mária Benkert efallai wedi bachu'r term cyfunrywiol am resymau cadarnhaol i ddarparu hunaniaeth y tu allan i gyfeiriadau crefyddol, mae Foucault yn dadlau bod yr hunaniaeth hon wedyn wedi dod yn ffocws i sefydliadau meddygol, yr heddlu a chrefydd fel anhwylder a oedd yn crisialu syniadau o normalrwydd a 'bod yn wahanol'. "Cyfeiliorniad dros dro oedd y sodomiad; roedd y gwrywygydiwr bellach yn rhywogaeth".⁴

Mae'n amlwg ein bod wedi cymryd camau breision yn niwylliant y gorllewin dros y 50 mlynedd diwethaf o ran hawliau i bobl LGBTQ. Ond nid oes ond rhaid edrych ar wrthdroi hawliau menywod o dan ddarostyngediggaeth grefyddol mewn rhai gwledydd i sylweddoli ei bod hi bob amser yn gamgymeriad cymryd pethau'n ganiataol.

¹ Michel Foucault *the history of sexuality vol 1*

² ibid

³ Lord Alfred Douglas *two loves*

⁴ Michel Foucault *the history of sexuality vol 1*

© John Paul Evans

Mae'r testun hwn yn rhan o **What is lost... what has been**
Arddangosfa gan **John Paul Evans** yn **Oriel Mission**
26 Mawrth - 14 Mai 2022

Oriel Mission
Gloucester Place
Yr Ardal Forol
Abertawe, SA1 1TY
Y Deyrnas Unedig

www.missiongallery.co.uk
info@missiongallery.co.uk
+44 (0) 1792 652 016

Mission Gallery



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

